

FFURFLEN ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB, GAN GYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

(Diwygiwyd Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau presennol ar yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth gwblhau'r ddogfen hon. Os hoffech fwy o arweiniad, cysylltwch â'r Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant, ar 01443 444529.

Rhaid cynnal aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y dogfennau hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg tra'n sicrhau cydymffurfio ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, yn cynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen hon hefyd yn cyfrannu tuag at ein dyletswyddau i greu Cymru sy'n Fwy Cyfartal o fewn

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllaw ['Cymru sy'n Fwy Cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau'](#) yn amlygu cydnawsedd ein dyletswyddau o ran y ddeddfwriaeth a grybwyllir uchod.

ADRAN 1 – MANYLION AM Y CYNNIG

Swyddog Arweiniol: Lisa Howell

Cyfarwyddwr Gwasanaethau: Andrea Richards

Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 23/11/21

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu ar gyfer effaith?

Strategaeth / Cynllun	Ailfodelu Gwasanaethau / Terfynu Gwasanaethau	Polisi / Gweithdrefn	Arferion	Gwybodaeth / Datganiad Sefyllfa
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

1.b) Beth yw enw'r cynnig?

Uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg.

1.c) Rhowch drosolwg o'r cynnig gan roi unrhyw ddolenni ategol at adroddiadau neu ddogfennau.

Mae'r cynnig ynglŷn ag uno Ysgol Gynradd Cefn (YGC) ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg (YGCH). Bydd yr uno yn digwydd trwy gau'r ddwy ysgol gynradd bresennol, sydd mewn cyflwr gwael, ac agor ysgol gynradd gymunedol fawr, newydd, yn eu lle ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg, a'r tir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Bydd yr ysgol newydd yn darparu amgylchedd dysgu hygyrch sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, sy'n cynnwys gofodau dysgu golau, agored a hyblyg i uchafu'r potensial ar gyfer dysgu. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hariannu gan y Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru (LIC), trwy ffrwd cyllid referiw Model Buddsoddi Cydfuddiannol y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif.

Adroddiad blaenorol i'r Cabinet, dyddiedig 24 Medi 2020, ynghylch llofnodi Cytundeb Partneru Strategol yn gysylltiedig â'r broses Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Adroddiad blaenorol i'r Cabinet, dyddiedig 4 Hydref 2021, ynghylch Rhaglen Amlinelliad Strategol diwygiedig Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor.

1.ch) Amlinellwch ble caiff cyflawni'r cynnig hwn ei effeithio gan ddeddfwriaeth neu ysgogwyr eraill, fel cod ymarfer.

Rhaid cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, a bod yn destun proses ymgynghori statudol.

Rhaid cydymffurfio â Bwletin Adeiladu 99.

Rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth gynllunio.

Rhaid symud ymlaen yn llwyddiannus trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a phroses cymeradwyo achosion busnes i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru.

1.d) Amlinellwch bwy mae'r cynnig hwn yn effeithio arno:

- Defnyddwyr gwasanaeth
- Cyflogeion
- Y gymuned ehangach

ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO – A OES ANGEN ASESIAID LLAWN O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB?

Defnyddir sgrinio i bennu p'un a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchoddedig. Pan nodir effeithiau negyddol ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yna mae angen Aseiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Rhowch gymaint o fanylion ag y bo modd am sut bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp â nodwedd warchoddedig mewn ffordd benodol.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "ystyriaeth briodol" i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; datblygu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Defnyddiwch dull croestoriadol wrth gydnabod y gallai fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchoddedig.

<u>Nodweddion Gwarchoddedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
<p>Oedran (<i>Grwpiau oedran penodol, h.y. pobl ifanc neu bobl hŷn</i>)</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Bydd disodli hen adeiladau ysgol adfeiliedig ar y ddau safle ag un ysgol gynradd gymunedol o faint priodol yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n addas ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr 21ain Ganrif ar gyfer pob plentyn ym mhentref Glyn-coch sydd angen addysg cyfrwng Saesneg. Bydd adeiladu ysgol newydd ag ystafelloedd dosbarth modern:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn darparu amgylcheddau dysgu cyfforddus a deniadol ar gyfer plant a oedd yn cael eu haddysgu mewn adeiladau oedd mewn cyflwr gwael yn y gorffennol; ac • Yn darparu cyfleusterau'r 21ain ganrif i alluogi pob un o'r disgyblion yn y gymuned leol i gymryd rhan mewn dysgu a 	<p>Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach.</p> <p>Er enghraifft, caiff cyfleusterau cymunedol eu defnyddio'n dda iawn yn Ysgol Gyfun Y Pant gan grwpiau fel Miskin Magpies (pêl-rwyd), Clwb Athletau Pont-y-clun, Band Chwythbrennau Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Rhondda.</p> <p>Yn yr un modd, defnyddir y cyfleusterau chwaraeon yn Ysgolion Cymunedol Tonyrefail ar gyfer twrnameintiau pêl-fasged ac</p>

<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		<p>gweithgareddau a all helpu datblygu perthnasoedd o fewn cymunedau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn caniatáu mynediad hawdd at wasanaethau i wella bywydau plant a'u teuluoedd. <p>Bydd bod yn rhan o ysgol fwy yn golygu bod disgyblion yn fwy tebygol o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda'u grŵp oedran eu hunain yn bennaf, gan alluogi athrawon i gynnig cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol i ddisgyblion i gefnogi pob dysgwr, yn cynnwys y rhai lleiaf abl a'r rhai mwyaf abl.</p> <p>Bydd y tarfu posibl ar ddysgu ac addysgu a achosir gan waith adeiladu ar y safle yn CYHPS yn cael ei leihau trwy wahanu'r ysgol newydd oddi wrth adeilad yr ysgol bresennol. Bydd y contractwr sy'n gwneud y gwaith yn brofiadol mewn gweithio ar safleoedd ysgolion byw.</p>	<p>ar gyfer hyfforddi gan glybiau rygbi a phêl-droed, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan gorau lleol, ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg gyda'r nos, boreau coffi cymunedol a dosbarthiadau celf.</p> <p>Yn sgil uno Ysgol Fabanod Cwmaman ac Ysgol Iau Glynhafod yn ddiweddar, bu cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol gynradd gymunedol newydd.</p>

<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		Bydd cyfle hefyd i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol a'r cyfleusterau chwaraeon, a bydd pob aelod o'r gymuned ehangach (ifanc a hen) yn cael cyfle i elwa ar hyn.	
Anabledd <i>(pobl ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd hirdymor)</i>	Cadarnhaol	<p>Ar hyn o bryd, nid yw safle ac adeilad ysgol YGC yn hygyrch, ac nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, tra bod angen gwella safle ac adeilad ysgol YGCH yn sylweddol er mwyn cydymffurfio. Bydd yr ysgol newydd yn cydymffurfio â gofynion presennol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu, bydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd yn hygyrch i bawb.</p> <p>Bydd gofodau dysgu hyblyg a gofod canolog yn yr ysgol yn darparu manau tawelach a fydd yn fuddiol i bob un o'r dysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Bydd y ddau ddsbarth Cymorth Dysgu, sydd wedi'u lleoli yn Ysgol</p>	Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u hygyrchedd i holl ddefnyddwyr yr adeiladau. Mae dyluniad pob un o'r ysgolion newydd yn ymgorffori'r holl hygyrchedd sydd wrth wraidd y dyluniad.

<u>Nodweddion Gwarchoddedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		Gynradd Cefn ar hyn o bryd, yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Bydd disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth hon yn elwa ar ystod ehangach y profiadau dysgu y gall amgylchedd dysgu modern yn yr 21ain Ganrif eu cynnig.	
Ailbennu Rhywedd (<i>unrhyw un y mae ei hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd i'r unigolyn pan gafodd ei eni, yn cynnwys hunaniaethau anneauidd</i>)	Cadarnhaol	Bydd toiledau yn yr ysgol newydd yn cael eu rhannu / ar gael i bawb – nid ydynt wedi eu dynodi'n doiledau gwryw / benyw.	Mae camau i ddarparu adeiladau ysgol newydd a chynnwys toiledau heb eu dynodi, gyda chiwbiclaau ag uchder llawn ar gyfer preifatrwydd a rhannu cyfleusterau golchi dwylo wedi cael eu croesawu oherwydd eu manteision niferus.
Priodas neu Bartneriaeth Sifil (<i>pobl sydd wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil</i>)	Niwtral	Ddim yn berthnasol	Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd hon.
Beichiogrwydd a Mamolaeth (<i>menywod sy'n feichiog / ar gyfnod absenoldeb mamolaeth</i>)	Cadarnhaol	Bydd yr ysgol newydd yn cydymffurfio â gofynion presennol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu, bydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd yn hygyrch i bawb. Bydd ganddi	Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar y staff, rhieni a'r gymuned ehangach gan eu

<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		fynediad lefel a bydd yn fwy cyfforddus yn thermol ac yn hawdd rheoli'r tymheredd mewnol. Hefyd, bydd trefniadau / cyfleusterau staffio mwy cyfforddus ar gyfer CPA a chyfleusterau gorffwys os oes angen trwy ystafell hylendid / ystafell feddygol ddynodedig.	bod wedi eu hawyru'n naturiol, a bod ganddynt systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni.
Hil <i>(grwpiau ethnig a hiliol, h.y. grwpiau ethnig lleiafrifol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr)</i>	Niwtral	Ddim yn berthnasol	Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd hon.
Crefydd neu Gred <i>(pobl â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol, yn cynnwys pobl heb unrhyw gredoau)</i>	Niwtral	Ddim yn berthnasol	Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd hon.
Rhyw <i>(menywod a dynion, merched a bechgyn)</i>	Cadarnhaol	Bydd yr ysgol newydd yn fwy cyfforddus yn thermol, a bydd yn hawdd rheoli'r tymheredd mewnol. Bydd hyn o fudd i staff sydd â symptomau'r menopos, trwy ddarparu amgylchedd mwy cyfforddus i weithio ynddo. Bydd	Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar y staff, rhieni a'r cymunedau ehangach gan eu bod wedi eu hawyru'n naturiol,

<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		cyfleusterau gorffwys ar gael hefyd os oes angen trwy ystafell hylendid / ystafell feddygol ddynodedig.	a bod ganddynt systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni.
Cyfeiriadedd Rhywiol <i>(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, strêl)</i>	Niwtral	Ddim yn berthnasol	Nid oes dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd hon.

Yn ychwanegol, o ganlyniad i ymrwymadau'r Cyngor a wnaed i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffem i chi ystyried effeithiau arnyn nhw:

	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
Cymuned y Lluoedd Arfog <i>(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'u teulu a'r rhai mewn profedigaeth)</i>	Cadarnhaol	Bydd capasiti cynyddol yr ysgol newydd yn sicrhau bod digon o leoedd i dderbyn teuluoedd a allai symud i'r ardal ar ganol blwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau).	Bydd niferoedd cynyddol o leoedd ysgol yn arwain at y gallu i dderbyn mwy o blant.
Gofalwyr <i>(unrhyw un o oedran sy'n</i>	Cadarnhaol	Bydd capasiti cynyddol yr ysgol newydd yn sicrhau bod	Bydd niferoedd cynyddol o leoedd ysgol yn arwain at y

<i>darparu gofal di-dâl)</i>		digon o leoedd i dderbyn teuluoedd a allai symud i'r ardal ar ganol blwyddyn academaidd. Gallai amgylchedd newydd yr 21ain Ganrif annog mwy o rieni / gofalywr i ddewis ysgol eu dalgylch yn hytrach nag ysgolion y tu allan i'w dalgylch, gan leihau effeithiau amser, cost ac effeithiau amgylcheddol teithiau hirach.	gallu i dderbyn mwy o blant.
------------------------------	--	--	------------------------------

Os yw'r prawf sgrinio cychwynol wedi nodi effeithiau negyddol, yna **rhaid** cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb (adran 4). Fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu nad yw asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb yn berthnasol ar ôl cynnal y prawf sgrinio uchod, rhowch esboniad digonol isod:

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar gyfer grwpiau gwarchodedig. Bydd yr holl effeithiau ar grwpiau gwarchodedig naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol.

Ydych chi'n hapus fod gennych ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad?

Ydw

Nac ydw

Enw: Nicola Goodman

Swydd: Uwch Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 23/11/21

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn hon at y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant.

SYLWER – mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid cwblhau hwn ar gyfer cynigion hefyd.

Mae ond angen cwblhau Adran 3 Dyletswydd economaidd-gymdeithasol os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 canllawiau Llywodraeth Cymru Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

ADRAN 3 – DYLETSSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol o ddifrif. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu â phobl eraill yng Nghymru, heb lawer o gyfoeth cronodig, os o gwbl, gan arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau bregus ychwanegol hyn a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt, neu i'r gwrthwyneb:

<ul style="list-style-type: none">• Rhieni sengl a theuluoedd bregus• Pensiynwyr• Plant sy'n derbyn gofal• Pobl ddigartref• Myfyrwyr• Aelwydydd un oedolyn	<ul style="list-style-type: none">• Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru• Pobl â llythrennedd a rhifedd isel• Pobl sydd wedi profi'r system loches• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau• Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal• Pobl yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol
---	---

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
<p><u>Incwm Isel/Tlodi Incwm</u> <i>(ddim yn gallu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, cludiant, ac ati.)</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae YGC ac YGCH wedi'u lleoli dim ond 0.7 milltir ar wahân, mewn ardal ddifreintiedig yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r pentref wedi'i rannu yn ddwy Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sef Glyn-coch 1 a Glyn-coch 2. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), mae Glyn-coch 1, sef yr ardal mae YGCH wedi'i lleoli ynddi, ymhlith y 3% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gwelir dystiolaeth bellach o hyn gan y ffigurau hawl i Brydau Ysgol Am Ddim, sef 50.5% ar gyfer YGC, a 48.4% ar gyfer YGCH (o gymharu â chyfartaledd RhCT, sef 25.5% ym mis Mai 2021).</p> <p>Bydd gofodau modern a hyblyg yn adeilad yr ysgol newydd, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ychwanegol ar ôl yr ysgol, yn cynnwys clybiau gwaith cartref i gynig cymorth pellach i leihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad y gwelir dystiolaeth ohono gyda dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.</p>	<p>Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach, e.e. clybiau ar ôl yr ysgol STEM yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.</p>

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		<p>Trwy uno YGC ac YGCH, bydd adeilad yr ysgol gynradd gymunedol newydd yn hygyrch i'r gymuned leol gyfan, ni waeth beth yw eu lefel incwm na ble maent yn byw.</p> <p>Mae safle'r ysgol newydd wedi'i leoli yng nghanol y gymuned yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Glyn-coch 1, sy'n fwy difreintiedig, ond o fewn pellter cerdded ar gyfer y pentref cyfan. Ni fyddai unrhyw gostau teithio i gael mynediad at y cyfleusterau, gan bontio'r bwlch rhwng unigolion / teuluoedd mwy a llai cefnog.</p> <p>Bydd gan yr ysgol newydd gyfleuster cymunedol dynodedig, a bydd yr ysgol wedi'i dylunio mewn ffordd sy'n golygu bod mynediad at y cyfleuster cymunedol, neuadd yr ysgol a thoiledau ar gael yn ddiogel heb fod angen cael mynediad at weddill adeilad yr ysgol. Yn amodol ar y gofynion / anghenion lleol, gellid trefnu bod yr ysgol ar gael ar gyfer</p>	

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
		dosbarthiadau addysg oedolion; grwpiau cymunedol; cyfarfodydd cymunedol, ac ati, a fydd, ochr yn ochr â'r cyfleusterau chwaraeon, yn darparu adnodd cymunedol gwerthfawr i bawb.	
Cyfoeth Isel a / neu Ddim Cyfoeth (<i>digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond dim cynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol</i>)	Cadarnhaol	Bydd priif neuadd fwyta fwy yn yr ysgol newydd, a fydd yn creu capasiti ychwanegol ar gyfer clwb brecwast a ddefnyddir gan lawer o deuluoedd sydd ar incwm isel, neu sydd ychydig bach uwchlaw'r trothwy tloidi. Hefyd, bydd gan adeilad yr ysgol newydd gyfleusterau a fydd yn cynorthwyo â storio gwisgoedd ysgol ar gyfer cynlluniau ailgylchu gwisgoedd ysgol, lle bydd rhieni ar incwm isel yn gallu elwa ar wisgoedd ysgol o ansawdd da yn rhad ac am ddim.	Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar argaeledd lleoedd mewn clybiau brecwast. Gweithredu'n llwyddiannus mewn llawer o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol.
<u>Amddifadedd Materol</u> <i>(yn methu cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd,</i>	Cadarnhaol	Bydd adeilad yr ysgol newydd yn cynnig cyfleusterau gwell ar gyfer pob defnyddiwr. Ar hyn o bryd, y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim yw 65.4% ar gyfer YGC, a 63.3% ar	Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar y nifer sy'n cael

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
<i>atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri / cael rhai newydd, cartref cynnes, hobiau, ac ati)</i>		gyfer YGCH. Gallai cyfleusterau bwyta newydd gael effaith gadarnhaol ar y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim, gan y bydd amgylcheddau bwyta mwy modern yn cael eu darparu. Bydd marchnata a gwaith gyda'r cynghorau ysgol yn cael ei wneud hefyd i annog cynnydd ymhellach yn y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd LIC y bydd yn cyflwyno prydau ysgol am ddim ar gyfer yr holl ddisgyblion oedran cynradd. Bydd y cyfleusterau arlwyo newydd yn cael eu dylunio i ddarparu ar gyfer nifer gynyddol y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim ar ôl cyflwyno'r polisi.	prydau ysgol am ddim.

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral	Rhowch fanylion am yr effaith	Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?
<p><u>Amddifadedd Ardal</u> <i>(ble rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), ble rydych chi'n gweithio (hygyrchedd cludiant cyhoeddus)</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol YGCH a'r tir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Tŷ Gwyn). Er y bydd rhai disgyblion sy'n mynychu YGC ar hyn o bryd yn byw ymhellach oddi wrth yr ysgol newydd, mae'r safle wedi'i leoli yng nghanol y gymuned ac yn hygyrch ar droed i'r rhan fwyaf o bobl y mae angen iddynt ymweld â'r safle. Bydd maes parcio hygyrch yn cael ei ddarparu hefyd. Bydd yr ysgol newydd yn rhoi cyfle i ddefnyddio cyfleusterau'r 21ain Ganrif at ddibenion addysgol a dibenion ehangach mewn lleoliad amlwg yn y pentref. Bydd capasiti cynyddol yr ysgol newydd yn galluogi mwy o ddysgwyr i elwa ar y cyfleusterau newydd sbon hyn.</p> <p>Bydd contractwr y sector preifat sy'n gysylltiedig â chreu adeilad yr ysgol newydd yn cyflawni manteision cymunedol trwy brentisiaethau, hyfforddiant a chyfleoedd swydd, gan ddod â swyddi lleol i bobl leol, a</p>	<p>Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion.</p> <p>Sicrhawyd manteision i'r gymuned gan brosiectau blaenorol yr 21ain Ganrif, er enghraifft yn Y Pant, crëwyd 47 o swyddi lleol, gan ddarparu 970 wythnos o</p>

		<p>chyfleoedd ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir. Byddant hefyd yn ymgymryd â gwirfoddoli yn y gymuned ac yn rhoi cyfraniadau mewn nwyddau, er budd y gymuned leol. Hefyd, byddant yn ymgysylltu â chymuned yr ysgol gan roi cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â'r contractwr mewn gweithgareddau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg).</p>	<p>hyfforddiant, a chreu 10 o brentisiaethau.</p> <p>Fel rhan o Brosiect Braenaru'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, ymgwymerodd Ysgolion Cynradd Pont-y-clun, Penygawsi a Llanilltud Faerdref â gweithgareddau STEM wedi eu cyflwyno gan RIBA.</p>
<p>Cefndir economaidd-gymdeithasol <i>(dosbarth cymdeithasol, h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Bydd uno YGC ac YGCH a darparu un ysgol gynradd gymunedol yn sicrhau bod pob teulu yng Nglyn-coch sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn cael yr un cyfle i fanteisio ar gyfleusterau addysgol rhagorol, ni waeth beth yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Bydd cyfleusterau ychwanegol yn yr ysgol newydd (e.e. ardal gemau amldefnydd) sy'n gallu cael eu defnyddio gan yr ysgol a'r gymuned ehangach, sydd felly'n cynnig cyfleoedd cynyddol ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol / defnydd grwpiau cymunedol a gwella iechyd a lles unigolion.</p> <p>Hefyd, bydd cyfleusterau TGCh o'r</p>	<p>Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach trwy gynnig defnydd o'r cyfleusterau gan y gymuned, er enghraifft caiff cyfleusterau cymunedol eu defnyddio'n dda iawn yn Ysgol Gyfun Y Pant gan grwpiau yn cynnwys Miskin Magpies (pêl-rwyd), Clwb Athletau Pont-y-clun, Band Chwythbrennau Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Rhondda.</p> <p>Yn yr un modd, defnyddir y cyfleusterau chwaraeon yn</p>

		radd flaenaf yn yr ysgol, a bydd y dysgwyr a'r gymuned ehangach yn elwa ar y rhain o ran cyfleoedd i wella llythrennedd cyfrifiadurol.	Ysgolion Cymunedol Tonyrefail ar gyfer twrnameintiau pêl-fasged ac ar gyfer hyfforddi gan glybiau rygbi a pêl-droed, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan gorau lleol, ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg gyda'r nos, boreau coffi cymunedol a dosbarthiadau celf.
Anfantais economaidd-gymdeithasol <i>(Beth fydd effaith grynodol y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchoddedig / nodweddion gwarchoddedig neu fregusrwydd neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)</i>	Cadarnhaol	Bydd yr ysgol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion o bob oed a phob un o'r staff, disgyblion, rhieni / gofawyr sydd ag unrhyw ofynion mynediad. Gan fod yr ysgol yn ganolog i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, bydd yr ysgol yn cynnig manteision i unrhyw unigolyn a allai fod dan anfantais yn ariannol neu'n faterol, ar y cyfan, gan y bydd yr ysgol newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i fwy o blant a dysgwyr hŷn / aelodau'r gymuned fanteisio ar gyfleusterau gwych 'ar garreg eu drws'.	Darparu adeiladau ysgol newydd a oedd ar draws y fwrdeistref sirol yn y gorffennol, a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a chymunedau ehangach, yn cynnwys creu swyddi yn lleol a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

ADRAN 4 – ASESIAID LLAWN O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn y cyfnod sgrinio i'ch cynorthwyo â nodi effeithiau negyddol / anffafriol posibl, a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

- 4.a) O ran effeithiau anghymesur / negyddol / anffafriol y gallai'r cynnig eu cael ar grŵp gwarchoddedig, amlinellwch y camau a fydd yn cael eu cymryd i leihau neu liniaru'r effaith ar gyfer pob grŵp a nodwyd. **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân ble mae'r effeithiau yn sylweddol.**

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / anffafriol ar grŵp gwarchoddedig.

- 4.b) Os oes ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond nid ydynt yn bosibl, esboniwch pam nad ydynt yn bosibl.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / anffafriol ar grŵp gwarchoddedig

- 4.c) Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu, yn benodol, y ffynonellau a ddefnyddir ar gyfer sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaeth / staff.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / anffafriol ar grŵp gwarchoddedig

- 4.ch) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth / staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchoddedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / anffafriol ar grŵp gwarchoddedig

- 4.d) Ydych chi'n fodlon fod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb Statudol ac Economaidd-gymdeithasol?

Ydw

Nac ydw

ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU

5a) Amlinellwch isod sut bydd gweithredu'r cynnig yn cael ei fonitro:

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018), er mwyn uno YGC ac YGCH, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymarfer ymgynghori statudol ar gau YGC ac YGCH, ac agor ysgol newydd a gynhelir. Cynhelir y cyfnod ymgynghori rhwng 5 Ionawr ac 18 Chwefror 2022, ac yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddir trigolion a rhanddeiliaid i roi adborth ar y cynigion.

Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd Pennaeth Gweithredol YGC ac YGCH yn cymryd rhan mewn trafodaethau cychwynnol am ddylunio a gofynion cwmpasu, a bydd corff llywodraethol ffederal, disgyblion, staff a rhieni / gofalmwyr y ddwy ysgol yn cael cyfle i roi mewnbwn ar y prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn gallu lleisio barn ynglŷn â sut olwg fydd ar yr ysgol newydd ar ôl cwblhau'r gwaith.

Mae croeso i bartïon a chanddynt fuddiant roi eu barn yn ysgrifenedig i'r canlynol:

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Tŷ Trevithick

Abercynon

CF45 4UQ

neu drwy anfon neges e-bost i: schoolplanning@rctcbc.gov.uk

Bydd swyddogion o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor o fewn Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant a Thîm Ystadau Corfforaethol y Cyngor yn monitro'r cynnig trwy gydol cyfnod datblygu'r dyluniad, y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda'r sector preifat, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

5b) Pryd bydd gwerthusiad y cynnig yn cael ei adolygu?

Bydd adborth o'r ymgynghoriad ar yr uno yn cael ei goladu a'i grynhoi, ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn ystod mis Mawrth 2022. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad, a bydd yn penderfynu, ar sail yr adborth, p'un a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebu. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn gofyn bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael cyfle i wneud hynny. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf y Cabinet sydd ar gael, ac yn pennu p'un a ddylid gweithredu'r cynnig. Os oes gwrthwynebiad, bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a'u hymateb iddynt o fewn 7 diwrnod i'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig.

Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn rheolaidd wrth i'r prosiect ddatblygu, a glynir at broses cymeradwyo achosion busnes a graddfeydd amser cysylltiedig Llywodraeth Cymru. Bydd achosion busnes yn adolygu ac yn gwerthuso'r cynnig i sicrhau cyllid, a gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet cyn dechrau ar unrhyw waith adeiladu.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Bydd swyddogion o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor o fewn Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant a Thîm Ystadau Corfforaethol y Cyngor yn monitro'r cynnig trwy gydol cyfnod datblygu'r dyluniad, y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol.

5ch) Sut bydd canlyniadau'r monitro yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Mae pob prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif yn destun adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ddiwedd y cyfnod adeiladu, ac mae hyn yn bwydo i brosiectau yn y dyfodol, fel bod pob prosiect yn gwella ac yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd (cadarnhaol a negyddol) yn ystod prosiectau blaenorol.

ADRAN 6 – ADOLYGU

Fel rhan o'r broses Asesu Effaith, rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad 'Penderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae'r panel hwn yn cynnwys swyddogion ar draws Gwasanaethau'r Cyngor, ac yn gweithredu fel ffrind beirniadol cyn cwblhau eich cynnig a'i gyhoeddi i'w gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Cabinet.

Os yw'r cynnig hwn yn Benderfyniad Allweddol, dylech anfon eich asesiad o'r effaith i Councilbusiness@rctcbc.gov.uk er mwyn trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae'r ddogfen ganllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhoi mwy o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i chi allu dangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a chanlyniadau economaidd-gymdeithasol. Sicrhewch eich bod yn diweddarau'r adrannau perthnasol isod.

Sylwadau gan y Panel Adolygu gan Swyddogion	Dyddiad Ystyried	Disgrifiad bras o unrhyw ddiwygiadau a wnaed ar ôl ystyriaethau gan y Panel Adolygu gan Swyddogion
Sylwadau'r Ymgynghoriad	Dyddiad Ystyried	Disgrifiad bras o unrhyw ddiwygiadau a wnaed ar ôl ymgynghori

ADRAN 6 – CRYNODEB O EFFEITHIAU AR GYFER Y CYNNIG

Rhowch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Dylid cynnwys y crynodeb hwn yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

Yn gryno, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchoddedig.

- Mae'r effaith ar oedran (yn enwedig y genhedlaeth iau) yn eithriadol o gadarnhaol gan y bydd pob un o'r plant yng Nglyn-coch sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn gallu elwa'n llawn ar gael eu haddysgu mewn cyfleusterau gwych ar gyfer yr 21ain Ganrif a'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

- Bydd yr adeilad yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan felly sicrhau nad yw'r un disgybl, aelod o staff, rhiant / gofalwr nac aelod o'r gymuned ehangach yn cael ei atal rhag manteisio'n llawn ar yr holl gyfleusterau newydd.

- Bydd effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd, er y bydd yr ysgol newydd yn ysgol cyfrwng Saesneg, bydd yn darparu cyfleusterau gwell i gynorthwyo â chyflwyno'r Gymraeg fel elfen allweddol o'r cwricwlwm, ac yn unol â Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CBSRhCT, gan mai ein nod yw cynnig addysgu o'r safon uchaf o ran Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- Bydd cynyddu capasiti yn yr ysgol newydd a darparu adeilad newydd sbon gyda chyfleusterau rhagorol yn sicrhau bod yr holl deuluoedd sy'n dymuno cael lleoedd yn yr ysgol yn cael eu derbyn, a gallai annog mwy o rieni / gofalwyr i ddewis ysgol eu dalgyloch. Hefyd, mae'n rhoi mwy o ddewis addysgol a allai gynorthwyo gweithwyr y lluoedd arfog fyddai efallai'n symud i ardal ar ganol blwyddyn academaidd.

- Bydd yr adeiladau newydd a'r ffordd y cânt eu defnyddio yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar draws yr holl grwpiau bregus a nodwyd o dan y penawdau anfantais economaidd-gymdeithasol.

ADRAN 7 – AWDURDODIADAU

Swyddog Arweiniol:

Enw: Nicola Goodman

Swydd: Uwch Swyddog Ysgolion yr 21ain Garrif

Dyddiad: 22/11/21

Rwy'n argymhell y canlynol o ran y cynnig:

- Dylid ei weithredu heb unrhyw ddiwygiadau
- Dylid ei weithredu gan ystyried y camau gweithredu lliniarol a amlinellir
- Dylid ei wrthod o ganlyniad i effeithiau negyddol anghymesur ar grwpiau gwarchoddedig neu grwpiau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol

Cymeradwyaeth gan y Pennaeth Gwasanaethau / Cyfarwyddwr:

Enw: Gaynor Davies

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Dyddiad: 23/11/21

Cyflwynwch yr asesiad effaith hwn gydag unrhyw adroddiadau gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Cabinet.